Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Telerau ac Amodau Grant: derbynyddion cyllid nad ydynt yn awdurdodau lleol, yn sefydliadau addysg bellach nac yn sefydliadau addysg uwch

Cyhoeddwyd ym mis Hydref 2026

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
www.medr.cymru

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cynnwys

Cyflwyniad 3
Defnyddio'r ddogfen hon 3
Diben a chwmpas y Cyllid 3
Talu Grant 4
Atebolrwydd 4
Digwyddiadau Hysbysu a'u Canlyniadau 5
Monitro ac adrodd 5
Gofynion archwilio 6
Gwybodaeth 6
Rheoli'r ystad yn ddarbodus 7
Prynu nwyddau a gwasanaethau 7
Atodiad A: Rhestr termau 8
Atodiad B: Digwyddiadau Hysbysu 9

Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r telerau ac amodau grant ar gyfer y derbynyddion cyllid hynny nad ydynt yn awdurdodau lleol, yn sefydliadau addysg bellach nac yn sefydliadau addysg uwch a ariennir gan Medr. Bydd Medr yn buddsoddi arian gan Lywodraeth Cymru drwy ddyfarniadau grantiau. Mae'r ddogfen telerau ac amodau grant hon yn helpu i gyflawni cyfrifoldeb Medr i sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau am arian ac y caiff cyllid ei ddefnyddio at y dibenion y cafodd ei roi ar eu cyfer.

2. Mae'r telerau ac amodau grant hyn a'r llythyr dyfarnu Grant cysylltiedig yn dweud wrthych pa wybodaeth y bydd angen i ni ei chael gennych er mwyn bodloni ein gofynion cyllido a monitro grantiau; ochr yn ochr â'ch rhwymedigaethau cyffredinol i Medr.

3. Yn ychwanegol at y ddogfen hon, bydd derbynyddion cyllid yn cael llythyr dyfarnu grant a fydd yn cynnwys manylion y cyllid a delir ac yn amlinellu'r dibenion a'r targedau y bydd yn ofynnol i dderbynnydd y grant lynu wrthynt yn gyfnewid am y cyllid hwnnw. Rhaid i'r telerau ac amodau grant hyn gael eu darllen ar y cyd â'r dibenion a'r targedau a nodir yn y llythyr cynnig Grant ac yn amodol arnynt.

4. Mae diffiniadau o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen i'w gweld yn '*Atodiad A: Rhestr Termau*'.

Defnyddio'r ddogfen hon

5. O bryd i'w gilydd, mae'n bosibl y byddwn, o fewn canllawiau dilynol, yn ychwanegu gofynion gorfodol pellach at yr amodau cyllid.

6. Pan ddefnyddiwn y term 'rhaid', bydd hyn yn dynodi amod cyllid penodol yn y ddogfen hon. Rhaid i dderbynnydd y cyllid gydymffurfio â'r gofynion hyn ac, os na wnaiff hynny, gallai Medr adhawlio cyllid a/neu ddod ag ef i ben yn unol â thelerau'r ddogfen hon. Defnyddiwn 'dylai' ar gyfer eitemau rydym yn eu hystyried yn arferion da sylfaenol ond nad oes amod cyllid penodol ar eu cyfer yn y ddogfen hon.

7. Daeth y ddogfen hon i rym ar 1 Awst 2026 a bydd yn parhau i fod yn ddilys nes hysbysir y sector fel arall.

Diben a chwmpas y Cyllid

8. Dim ond at y dibenion a amlinellir yn y llythyr dyfarnu Grant ac yn unol â'r telerau ac amodau a nodir yn y Cytundeb hwn y caiff derbynnydd y cyllid grant ddefnyddio'r Grant. Ni chaniateir defnyddio'r Grant at yr un diben arall heb gytundeb Medr ymlaen llaw.

9. Mae'n bosibl y bydd Medr yn adhawlio cyllid na chaiff ei ddefnyddio at y diben y cafodd ei roi ar ei gyfer.

10. Nid yw Medr yn ymrwymo i adnewyddu cyllid na pharhau ag ef ar ôl cyfnod y Cytundeb hwn ac ni fydd rhwymedigaeth arno i dalu unrhyw gostau ychwanegol yr ewch iddynt naill ai yn ystod y Cyfnod Cyllido neu ar ôl hynny.

11. Mae derbynnydd y cyllid grant yn cytuno ac yn derbyn na fyddwch yn gwneud cais am gyllid dyblyg mewn perthynas ag unrhyw ran o'r Gweithgareddau a Ariennir nac unrhyw gostau gweinyddu a ariennir gan Medr yn llawn fel rhan o'r cynnig Grant.

12. Mae derbynnydd y cyllid grant yn cytuno y byddwch yn cynnal systemau ariannol, risg a diwydrwydd dyladwy priodol wrth ddefnyddio unrhyw ran o'r Cyllid i roi grant a/neu gaffael unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan drydydd parti.

Talu Grant

13. Telir y Cyllid i chi yn amodol ar eich cydymffurfiaeth â'r Cytundeb hwn ac unrhyw amodau pellach y gallwn eu pennu o bryd i'w gilydd.

14. Caiff y Grant ei dalu yn unol â'r proffil taliadau a amlinellir yn y llythyr dyfarnu Grant.

15. Dim ond mewn perthynas â gwariant cymwys y bydd derbynnydd y cyllid grant yn mynd iddo er mwyn cyflawni'r gweithgareddau a ariennir a amlinellir yn y llythyr dyfarnu Grant y bydd Medr yn talu'r cyllid.

16. Rhaid i dderbynnydd y cyllid ad-dalu'n brydlon unrhyw arian a delir yn anghywir gan Medr, naill ai o ganlyniad i wall gweinyddol neu fel arall.

17. Ceidw Medr yr hawl i'w gwneud yn ofynnol i dderbynnydd y cyllid ad-dalu'r holl gyllid a delir neu unrhyw ran ohono os na fydd derbynnydd y cyllid yn cydymffurfio ag unrhyw un neu rai o'r telerau ac amodau grant y bydd Medr wedi'u pennu ar gyfer talu'r cyllid hwnnw.

18. Rhaid i unrhyw symiau y bydd yn ofynnol eu had-dalu i Medr gael eu talu'n llawn o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr hawliad ysgrifenedig gan Medr, oni fydd Medr wedi cytuno fel arall yn ysgrifenedig.

19. Yn rhinwedd ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu, gall Prif Swyddog Gweithredol Medr (neu uwch-swyddog a enwebir gan y Prif Swyddog Gweithredol) atal taliad grant, naill ai yn llawn neu'n rhannol a naill ai'n barhaol neu dros dro, os bydd o'r farn ei bod yn briodol ac yn rhesymol gwneud hynny er mwyn diogelu cyllid cyhoeddus.

Atebolrwydd

20. Y Swyddog Atebol sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff y Grant ei wario mewn modd sy'n cydymffurfio â'r telerau ac amodau grant.

21. Rhaid i'r Swyddog Atebol ddiogelu'r Grant, arfer rheolaeth arno a sicrhau ei fod yn cael ei reoli'n effeithlon, yn ddarbodus ac yn effeithiol.

22. Rhaid i'r Swyddog Atebol roi gwybod i Medr am unrhyw wendid difrifol[1], megis bygythiad sylweddol ac uniongyrchol i sefyllfa ariannol derbynnydd y cyllid, twyll sylweddol neu fethiant cyfrifyddu mawr a'r camau a gymerir gan dderbynnydd y cyllid i fynd i'r afael â'r gwendid hwn.

23. Rhaid i'r Swyddog Atebol roi gwybod i Medr am unrhyw achos o dorri deddfwriaeth y DU neu beidio â chydymffurfio â hi.

24. Dylai'r Swyddog Atebol geisio sicrhau y rhoddir sylw i ystyriaethau ariannol, gan gynnwys unrhyw faterion yn ymwneud â phriodoldeb, rheoleidd-dra a gwerth am arian, ar bob cam mewn perthynas â'r Grant.

25. Rhaid i'r Swyddog Atebol sicrhau bod derbynnydd y cyllid yn cydymffurfio â'r Telerau ac Amodau Grant, a chyfrifoldeb derbynnydd y cyllid yw'r gydymffurfiaeth honno.

26. Y Swyddog Atebol sy'n gyfrifol am sicrhau mai dim ond yn unol â'r Cytundeb hwn ac unrhyw amodau eraill a bennir gan Medr o bryd i'w gilydd y caiff cyllid gan Medr ei ddefnyddio. Dylai'r cyllid gael ei reoli yn unol â'r egwyddorion a nodir yn Managing Public Money (Trysorlys EF).

27. Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rhaid i Medr fod yn hyderus bod gan y derbynyddion cyllid a ariennir ganddo drefniadau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu digonol ac effeithiol i ddiogelu cyllid cyhoeddus a fuddsoddir, a threfniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian o gyllid cyhoeddus.

Digwyddiadau Hysbysu a'u Canlyniadau

28. Rhaid i chi ein hysbysu ni ar unwaith drwy e-bost (BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru, os bydd Digwyddiad Hysbysu[2] wedi codi neu'n debygol o godi, ond cadwn yr hawl i'ch hysbysu chi hefyd os byddwn yn credu bod Digwyddiad Hysbysu wedi codi neu'n debygol o godi.

29. Byddwn naill ai:
    - yn eich hysbysu ein bod, yn ôl ein disgresiwn llwyr, o'r farn nad oes modd unioni'r Digwyddiad Hysbysu; neu
    - os byddwn, yn ôl ein disgresiwn llwyr, o'r farn bod modd unioni'r Digwyddiad Hysbysu, yn ceisio trafod y Digwyddiad Hysbysu gyda chi gyda'r nod o gytuno ar ffordd o weithredu er mwyn mynd i'r afael â'r Digwyddiad Hysbysu.

Monitro ac adrodd

30. Dylai derbynnydd y cyllid fonitro'n ofalus y ffordd y caiff y cyllid Grant ei wario drwy gydol cyfnod y Grant er mwyn sicrhau y glynir wrth y telerau ac amodau grant.

31. Rhaid i chi roi i Medr unrhyw wybodaeth, esboniadau a dogfennau y bydd yn rhesymol i Medr ofyn amdanynt, gan gynnwys unrhyw ofynion monitro neu adrodd

[1]Diffinnir 'gwendid difrifol' fel un sydd wedi arwain at golled ariannol sylweddol neu risg sylweddol i eiddo, gwaith, data, buddiolwyr neu enw da derbynnydd y cyllid, neu un a allai arwain at hynny.
[2] Fel y'i diffinnir yn Atodiad B.

penodol a nodir yn y llythyr dyfarnu Grant, er mwyn i ni allu cadarnhau bod y Grant wedi cael ei ddefnyddio'n briodol yn unol â'r Cytundeb hwn. Gall templedi monitro gynnwys adrannau ar y ffyrdd y mae'r prosiect wedi cyfrannu at gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

32. Rhaid i chi gydweithredu'n llawn â'r Swyddog ar ran Medr ac unrhyw un arall o gyflogeion Medr neu ymgynghorydd a benodir gennym i fonitro eich defnydd o'r Cyllid a'ch cydymffurfiaeth â'r telerau ac amodau grant.

33. Os na fydd Medr yn fodlon ar y ffordd y byddwch wedi cynnal y gweithgareddau a ariennir a chyflawni'r deilliannau y cytunwyd arnynt, cadwn yr hawl i gadw'r cyllid yn ôl, ei atal neu ei ganslo.

34. Os bydd dyfarniad grant yn ymestyn y tu hwnt i gyfnod o flwyddyn, caiff y Grant ei adolygu'n flynyddol, a bydd yr adolygiad yn ystyried y ffordd y byddwch wedi cyflawni'r amcanion ar sail y dibenion a'r targedau y cytunwyd arnynt fel yr amlinellir yn y llythyr dyfarnu Grant.

Gofynion archwilio

35. Rhaid i dderbynnydd y cyllid gadw cofnodion cyfrifyddu cyflawn, cywir a dilys sy'n nodi'r holl incwm a gwariant mewn perthynas â'r dibenion.

36. Archwilydd Cyffredinol Cymru yw'r archwilydd allanol statudol ar gyfer Llywodraeth Cymru a Medr. Mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawl i archwilio cyfrifon unrhyw dderbynnydd cyllid a gaiff grant gan Medr neu Lywodraeth Cymru a chynnal ymchwiliadau gwerth am arian.

37. Rhaid i chi gadw'r llythyr hwn a'r holl ddogfennau gwreiddiol sy'n gysylltiedig â'r Cyllid am naill ai chwe blynedd neu 10 mlynedd o ddyddiad y taliad cyllid olaf, fel yr amlinellir yn Rhestr cadw a gwaredu Llywodraeth Cymru.

Gwybodaeth

38. Rydych yn cydnabod bod Medr yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (“y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth”), Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (“y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol”), Deddf Diogelu Data 2018 (“y Ddeddf Diogelu Data”) a fersiwn cyfraith yr UE a ddargedwir o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ((EU 2016/670) (“GDPR y DU”).

39. Rydych yn cydnabod mai ni sy'n gyfrifol am benderfynu ar y canlynol, yn ôl ein disgresiwn llwyr:
    a. a oes angen i unrhyw wybodaeth a gasglwyd o dan y cyllid neu mewn perthynas ag ef gael ei datgelu yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol; a/neu
    b. a yw unrhyw wybodaeth wedi'i hesemptio rhag cael ei datgelu yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Er eglurder, ni fyddwn fel arfer yn datgelu gwybodaeth sensitif heblaw at ddibenion briffio rhesymol, gan ystyried y ffaith bod derbynyddion cyllid yn

rhannu'r wybodaeth hon â Medr ar sail gyfrinachol, a'r niwed y gellid ei achosi drwy ei datgelu.

40. Rydych yn cydnabod y gallwn rannu unrhyw ddata y byddwch yn eu rhoi i ni ag asiantaethau atal twyll a thrydydd partïon at ddibenion atal a chanfod twyll. Caiff unrhyw ddata personol a gesglir gennym eu rheoli yn unol â Hysbysiad Preifatrwydd Medr.

41. Nid oes dim byd yn y telerau ac amodau grant yn trosglwyddo unrhyw hawliau i ni dros unrhyw eiddo deallusol a gaiff ei greu gennych o ganlyniad i'r Dibenion.

42. Rydych yn cytuno y gallwn, o ddyddiad y llythyr hwn tan bum mlynedd ar ôl dyddiad y taliad Cyllid olaf, gynnwys manylion am eich sefydliad a'ch busnes, y Cyllid a'r Dibenion mewn deunyddiau i hyrwyddo Medr, ac rydych yn cytuno ymhellach i gydweithredu â cheisiadau rhesymol gennym er mwyn llunio deunyddiau o'r fath.

Rheoli'r ystad yn ddarbodus

43. Dylai derbynnydd y cyllid grant ystyried Sero Net wrth gyflawni dibenion y grant a roddir.

Prynu nwyddau a gwasanaethau

44. Os byddwch yn penderfynu prynu unrhyw nwyddau a/neu wasanaethau er mwyn cyflawni'r Dibenion sydd yn y llythyr dyfarnu Grant, bydd yn rhaid eu prynu mewn ffordd gystadleuol a chynaliadwy er mwyn dangos eich bod wedi:
    (i) sicrhau'r gwerth gorau wrth ddefnyddio cyllid cyhoeddus;
    (ii) cydymffurfio â'ch polisi gwrthdaro buddiannau ar yr un pryd;
    (iii) sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi caffael sydd ar waith gennych ar yr adeg berthnasol.

45. Mae'n bosibl y byddwn o bryd i'w gilydd yn gofyn am dystiolaeth gennych i ddangos eich cydymffurfiaeth â'r amod hwn. Gall tystiolaeth o'r fath fod ar ffurf tystiolaeth o'r canlynol:
    a. eich cydymffurfiaeth ag unrhyw reoliadau, deddfwriaeth neu ganllawiau caffael a fydd ar waith o bryd i'w gilydd ac y byddwch chi, neu unrhyw berson sy'n cynnal busnes neu'n cyflawni swyddogaeth o'r un natur â chi neu natur debyg, yn ddarostyngedig iddynt; neu
    b. eich cydymffurfiaeth â'r polisi caffael sydd ar waith gennych ar yr adeg berthnasol; neu
    c. eich bod wedi cael o leiaf dri dyfynbris ysgrifenedig ar gyfer y nwyddau a/neu'r gwasanaethau perthnasol.

46. Rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth o'r fath i ni yn brydlon ar ôl ein cais ysgrifenedig amdani.

Atodiad A: Rhestr termau

Yn y telerau ac amodau cyllid hyn, mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol:

Swyddog Atebol	Pennaeth sefydliad sy'n gyfrifol ac yn atebol i Medr (ac i Senedd Cymru yn y pen draw) am sicrhau bod y sefydliad yn defnyddio cyllid Medr mewn ffyrdd sy'n gyson â'r dibenion y cafodd y cyllid hwnnw ei roi ar eu cyfer ac sy'n cydymffurfio â'r telerau ac amodau grant sy'n gysylltiedig ag ef
Derbynnydd cyllid	Sefydliad yn y sector addysg drydyddol nad yw'n awdurdod lleol, yn sefydliad addysg bellach nac yn sefydliad addysg uwch

Atodiad B: Digwyddiadau Hysbysu

Rhestrir y Digwyddiadau Hysbysu isod:

1. os bydd angen ad-dalu unrhyw ran o'r Cyllid yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol;

2. os na fyddwch yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol y DU neu Gymru;

3. os na fydd y Cyllid, yn llawn neu'n rhannol, yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r Dibenion;

4. na fyddwch yn darparu gwybodaeth am y Dibenion a geisiwyd gennym ni neu gan unrhyw gyrff perthnasol y DU neu unrhyw un o'u harchwilwyr, asiantwyr neu gynrychiolwyr;

5. os bydd cynnydd anfoddhaol tuag at gyflawni'r Dibenion, gan gynnwys cyrraedd y Targedau;

6. os na fyddwch yn rhoi gwybodaeth am y Dibenion ar ôl i ni neu unrhyw gorff gorfodi cymorthdaliadau yn y DU neu unrhyw un o'i archwilwyr, asiantiaid neu gynrychiolwyr ofyn amdani;

7. os bydd gennym reswm dros gredu eich bod chi a/neu unrhyw un neu rai o'ch Personél yn rhan o weithgarwch twyllodrus neu wedi bod yn rhan o weithgarwch twyllodrus p'un a yw'n ymwneud â'r Cyllid neu'n gysylltiedig ag ef mewn unrhyw ffordd ai peidio;

8. os byddwn wedi gwneud gordaliad Cyllid i chi;

9. os bydd dyblygu cyllid mewn perthynas ag unrhyw ran o'r Dibenion;

10. os bydd addasiad (barn amodol, barn andwyol neu ymwadiad) wedi cael ei wneud i farn yr archwilydd ar eich datganiadau ariannol;

11. os bydd digwyddiad neu amgylchiad wedi codi a heb gael ei ddatrys sy'n gyfystyr (neu a fyddai, ar ôl i gyfnod gras ddod i ben, ar ôl i rybudd gael ei roi, ar ôl i unrhyw benderfyniad gael ei wneud neu ar ôl unrhyw gyfuniad o'r rhain, yn gyfystyr) â digwyddiad methdalu neu derfynu (sut bynnag y caiff ei ddisgrifio) o dan unrhyw gytundeb neu offeryn arall sy'n eich rhwymo neu y mae unrhyw un neu rai o'ch asedau'n ddarostyngedig iddo;

12. os cytunir ar foratoriwm mewn perthynas â'ch holl ddyledion neu asedau neu unrhyw un neu rai ohonynt, neu gyfansoddiad neu gytundeb â'ch credydwyr, neu os gwneir cais am foratoriwm, cyfansoddiad neu gytundeb o'r fath, neu os caiff moratoriwm, cyfansoddiad neu gytundeb o'r fath ei orchymyn neu ei ddatgan;

13. os byddwch yn rhoi'r gorau i dalu unrhyw ddyledion, yn peidio â'u talu dros dro, yn methu â'u talu neu'n cyfaddef yn ysgrifenedig na allwch eu talu pan ddônt yn ddyledus;

14. os bydd gwerth eich asedau'n llai na'ch rhwymedigaethau (gan ystyried rhwymedigaethau wrth gefn a rhwymedigaethau arfaethedig);

15. os byddwch yn dechrau cyd-drafod, neu'n ymrwymo i unrhyw gyfansoddiad, cyfaddawd, aseiniad neu drefniant, gydag un neu fwy o'ch credydwyr, gyda'r bwriad o aildrefnu unrhyw un neu rai o'ch dyledion (oherwydd anawsterau ariannol gwirioneddol neu ddisgwyliedig);

16. os caiff unrhyw gamau eu cymryd, os caiff unrhyw achos ei ddwyn neu os caiff unrhyw weithdrefn ei dilyn mewn perthynas â chi ac un neu rai o'r canlynol:
    - atal taliadau, moratoriwm mewn perthynas ag unrhyw ddyledion, dirwyn i ben, diddymu, gweinyddu neu ad-drefnu (gan ddefnyddio trefniant gwirfoddol, cynllun trefniant neu fel arall); neu
    - gyfansoddiad, cyfaddawd, aseiniad neu drefniant gydag unrhyw un neu rai o'ch credydwyr.

17. os penodir datodwr, derbynnydd, derbynnydd gweinyddol, gweinyddwr, rheolwr gorfodol neu swyddog tebyg arall mewn perthynas â chi neu unrhyw un neu rai o'ch asedau;

18. os gwneir hawliad statudol yn eich erbyn;

19. os byddwch yn rhoi'r gorau i gynnal eich holl fusnes neu ran sylweddol ohono, neu'n bygwth gwneud hynny'n barhaol neu dros dro;

20. os bydd newid i'ch cyfansoddiad, eich statws, eich rheolaeth neu eich perchnogaeth a/neu os bydd eich archwilwyr allanol yn ymddiswyddo;

21. os na fyddwch yn cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau adrodd statudol sy'n berthnasol i chi (gan gynnwys gofynion cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau, y Comisiwn Elusennau a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt);

22. os bydd unrhyw newid, boed yn barhaol neu dros dro, i'ch cyfranddalwyr, eich cyfarwyddwyr, eich ymddiriedolwyr neu eich partneriaid a/neu eich Personél a all effeithio ar eich gallu i gyflawni'r Dibenion;

23. os bydd unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiadau'n codi sydd, yn ein barn ni, yn rhoi sail resymol dros gredu y gallai rhoi'r Cyllid a/neu barhau â'r trefniadau a fwriedir gan y llythyr hwn ddwyn anfri arnom;

24. os bydd unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiadau'n codi sydd, yn ein barn ni, yn rhoi sail resymol dros gredu efallai na fyddwch yn cyflawni unrhyw un neu rai o'ch rhwymedigaethau o dan yr Amodau neu na fyddwch yn cydymffurfio â nhw, neu ei bod yn bosibl na allwch wneud hynny.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government